Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Goblygiadau ariannol y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Gorffennaf 2018

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Goblygiadau ariannol y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Gorffennaf 2018

Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10, 18.11, 19 a 20 Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

O dan Reolau Sefydlog 19 ac 20, mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys ystyried unrhyw adroddiad neu ddogfen a osodir gerbron y Cynulliad yn ymwneud â'r defnydd o adnoddau, neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymgymryd â gwaith craffu ar gyllideb y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Ymhlith cyfrifoldebau'r Pwyllgor o dan Reolau Sefydlog 18.10 ac 18.11, mae goruchwylio llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, fel y nodir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried unrhyw gynigion ar gyfer datganoli pwerau cyllidol i Gymru a chynnydd yn hyn o beth, fel rhan o'i gyfrifoldebau.

Gall y Pwyllgor hefyd graffu ar ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i'r Cynulliad.

Cadeirydd y Pwyllgor:

Simon Thomas AC
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:

Neil Hamilton AC
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mike Hedges AC
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe

Jane Hutt AC
Llafur Cymru
Bro Morgannwg

Steffan Lewis AC
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru

Nick Ramsay AC
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy

David Rees AC
Llafur Cymru
Aberafan

Cynnwys

Argymhelliad a Casgliadau 5

1. Cefndir a throsolwg 6

2. Crynodeb o'r costau 7

3. Methodoleg o ran costau 9

4. Yr opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru 13

Argymhelliad a Casgliadau

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am gostau CThEM i ddatblygu a darparu Cynnig Gofal Plant Cymru yn ei lwyfan presennol wrth i'r cynnig fynd rhagddo. ..... Tudalen 17

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i thrafodaethau â CThEM, i'w gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth Cymraeg weithredu yng Nghymru, gan sicrhau swyddi yng Nghymru a chefnogi safonau'r Gymraeg. ..... Tudlaen 18

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i gynnwys Awdurdod Cyllid Cymru o ran cynghori a goruchwylio, gan feithrin arbenigedd a phrofiad yng nghyd-destun Cymru, rhag ofn y bydd angen datblygu system bwrpasol i Gymru yn y dyfodol. ..... Tudalen 18

1. Cefndir a throsolwg

1. Cyflwynwyd Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) (y Bil) ar 16 Ebrill 2018 gan Huw Irranca-Davies AC, y Gweinidog dros Blant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol (y Gweinidog).

2. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai nod y Bil yw:

> "... helpu i gyflawni ymrwymiad allweddol ym maniffesto Llafur Cymru *Gyda'n Gilydd Dros Gymru (2016)*, sef darparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth i rieni sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed yng Nghymru am hyd at 48 wythnos y flwyddyn."[1]

3. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio bod y cynnig 30 awr yn adeiladu ar yr hawl gyffredinol bresennol, sef 10 awr o leiaf o addysg gynnar yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol, am 39 wythnos y flwyddyn i bob plentyn tair a phedair oed sy'n gymwys (o'r tymor ar ôl ei ben-blwydd yn dair oed).[2]

4. Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid ar gyfer gofal plant i blant cymwys rhieni sy'n gweithio, ac i wneud rheoliadau ar y trefniadau ar gyfer gweinyddu a gweithredu cyllid o'r fath.[3]

5. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n cyflwyno amcangyfrif o'r costau ychwanegol sy'n deillio o'r Bil.

6. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog ar oblygiadau ariannol y Bil ar 13 Mehefin 2018.

[1] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.1

[2] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.3

[3] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.18

2. Crynodeb o'r costau

7. Mae'r Bil yn canolbwyntio ar sefydlu system genedlaethol ar gyfer prosesu ceisiadau a chynnal gwiriadau cymhwystra. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi costau gweinyddu'r cynllun, nid y gost o ddarparu'r cynnig ei hun.

2. 1. Yr opsiynau a ystyriwyd

8. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu costau ar gyfer pedwar opsiwn yn seiliedig ar bwy fyddai'n prosesu ceisiadau ac yn gwirio cymhwystra.

- Opsiwn 1 – Awdurdodau lleol yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwystra (y cyfeirir ato yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel yr opsiwn "gwneud dim" gan mai dyma'r opsiwn diofyn y disgwylir iddo gael ei roi ar waith pe na bai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno);
- Opsiwn 2 – Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn derbyn ceisiadau ac yn cynnal gwiriadau cymhwystra;
- Opsiwn 3 – Llywodraeth Cymru yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwystra â llaw;
- Opsiwn 4 – Parti wedi'i gontractio yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwystra (yn cynnwys yr opsiwn o benodi un awdurdod lleol i gynnal y gwiriadau hyn).[4]

9. Ceir crynodeb o'r costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru (neu awdurdodau lleol yn Opsiwn 1) a chostau cydymffurfio i ymgeiswyr (yr amser a dreulir i gwblhau'r broses ymgeisio a chyflwyno dogfennaeth ategol) yn Nhabl 1.

Tabl 1: Cyfanswm y costau ar gyfer pob opsiwn o 2019/20 hyd at 2024/25

	Costau (£000)			
Opsiwn	Awdurdod lleol	Llywodraeth Cymru	Yr Ymgeisydd	Cyfanswm
1	26,833	0	4,226	31,059
2	0	9,118	1,408	10,526
3	0	15,551	2,818	18,369
4	0	18,534	2,818	21,353

Ffynhonnell: Memorandwm Esboniadol

[4] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 7.1

2. 2. Cyfnod peilot

10. Yr opsiwn diofyn (Opsiwn 1) yw bod pob un o'r 22 awdurdod lleol yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwystra ymgeiswyr yn unigol. O fis Medi 2017, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru y dull hwn o gyflawni cyfnod peilot y Cynnig Gofal Plant mewn saith[5] "Awdurdod Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar".[6] Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru drefniadau i ehangu ardaloedd cymwys yn yr awdurdodau lleol hyn.[7]

11. Ym mis Mehefin 2018, cyhoeddodd y Gweinidog gynlluniau i gyflwyno saith Awdurdod Lleol arall o fis Medi 2018 a newid i bolisi'r Cynnig Gofal Plant i alluogi gwarchodwyr plant cofrestredig i gael cyllid am ofal plentyn sydd hefyd yn berthynas.[8]

[5] Pob rhan o Flaenau Gwent ac ardaloedd yng Nghaerffili, Sir y Fflint, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Gwynedd ac Ynys Môn (cynllun peilot ar y cyd)

[6] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.14

[7] Datganiad Ysgrifenedig, y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant: Y Diweddaraf ar y Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru, 11 Ebrill 2018

[8] Datganiad Ysgrifenedig: Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol, 19 Mehefin 2018

3. Methodoleg o ran costau

12. Comisiynodd Llywodraeth Cymru Gartner Consulting i ddatblygu costau bras ar gyfer pob un o'r pedwar opsiwn[9]. Roedd hyn yn cynnwys amcangyfrif costau datblygu a sefydlu'r system a'r costau parhaus, gan gynnwys costau staffio lle y mae angen ymyrraeth unigolion er mwyn asesu cymhwystra.[10]

13. Eglurodd y Gweinidog mai'r rhesymeg dros gomisiynu Gartner Consulting i ddatblygu costau ar gyfer pob opsiwn oedd sicrhau cywirdeb a thryloywder ychwanegol i'r broses.[11] Parhaodd:

> "Gartner Consulting, interestingly, have been involved in similar schemes before, including in England, so they have some familiarity with this and they're not starting from a blank sheet. They have a very strong reputation as an independent consultancy in this particular field and of developing and reviewing programmes like this."[12]

14. Yn ôl yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

> "As requirements are not currently clearly defined, it has been necessary to make assumptions as to what the processes and accompanying system requirements will look like and the associated cost."[13]

15. Pan ofynnwyd pa mor hyderus yw Llywodraeth Cymru bod y costau a ddarperir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn adlewyrchiad cywir o'r opsiynau, o ystyried nad yw'r gofynion wedi'u diffinio'n glir, dywedodd y Gweinidog:

> "We're very confident in what we have in front of us in terms of the regulatory impact assessment. We've done the sensitivity analysis. It has shown that the calculations and assumptions that we've done are unlikely to change significantly around the preferred option for that to no longer be the lowest cost option. The rigour of the data sources that we used includes industry standards, information from Her Majesty's Revenue and Customs current offer, data from the early implementers and the experiences of other existing Welsh Government programmes

[9] Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.9

[10] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.15

[11] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 17

[12] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 17

[13] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.16

> like the parents, childcare and employment programme. The other reason we're confident it's robust—I could go through several—is that it's very much in line with standard Green Book procedure as well. And just finally, it's based on higher level estimates, so we're very confident in what we have in front of us. We will, by the way, regularly review and update these as time goes by."[14]

16. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod rhagdybiaethau o ran defnyddio'r system wedi'u seilio ar gyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y cynnig ac aelodau o staff o'r saith awdurdod lleol sy'n weithredwyr cynnar. Cafwyd gwybodaeth gynhwysfawr gan CThEM am ddarparu gwasanaethau a chostau dangosol cysylltiedig posibl.[15]

17. O ran sut y mae data costau o'r awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar wedi dylanwadu ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

> "...Gartner actually went out and engaged with the early implementers—all of them—and in particular I have to say with two that we're doing two slightly different approaches with. So, for example, Blaenau Gwent was the most manually administrative of the systems, which, of course, is reflected in one of the options. They were able to talk with them about the paper processing elements—what costs and bureaucracy were with that. Flintshire, by contrast, was one of the most digitally advanced, albeit not on the mechanism that we are proposing, but the most digitally advanced. So, that was helpful in being able to inform Gartner's analysis, then, of where the cost would fall in each option."[16]

18. Defnyddiwyd cyfraddau diwydiant wedi'u meincnodi ar gyfer costau staff ac elfennau'r system TG, ac amcangyfrifwyd y costau ar y terfyn uchaf i gyfrif am yr ansicrwydd ynghylch gofynion yr opsiynau arfaethedig.[17]

19. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif 40,000 o geisiadau'r flwyddyn dros y cyfnod pum mlynedd.[18] Esboniodd y Gweinidog fod swyddogion yn dadansoddi data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar blant a data cymhwystra ar gyfraddau cyflogaeth ac enillion rhieni o'r arolwg poblogaeth blynyddol.

---

[14] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 15

[15] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.17

[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 24

[17] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 8.18 - 8.19

[18] Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 8.37, 8.48, 8.61 ac 8.76

Cadarnhaodd y bydd y ffigur yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n gyson yn seiliedig ar brofiad y gweithredwyr cynnar.[19]

20. O ran y baich amser sy'n gysylltiedig â gwirio cymhwystra a chyflwyno dogfennaeth ategol fel rhan o'r broses ymgeisio, cadarnhaodd y Gweinidog fod cynnwys costau cydymffurfiaeth ariannol i ymgeiswyr yn dilyn rheolau safonol Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM.[20] Ychwanegodd:

> "It is a real cost. Even if you can't see it on a balance sheet, it can be monetarised. And the Green Book approach says you should do this and take it into account. What we know from the early implementers already, particularly in those areas where they are doing it by a more paperwork-driven system, is that this is impacting directly on those parents."[21]

21. Mewn ymateb i bryderon y caiff rhai ymgeiswyr eu hallgáu'n ddigidol o'r broses ymgeisio ar-lein a gynigir ar gyfer pob opsiwn, dywedodd y Gweinidog:

> "...there'll be a helpdesk and, in fact, within the costings, we identified that helpdesk option within all four options so that everybody would be able to access this offer also by telephone, if need be. So, they wouldn't have to rely on e-mails or digital platforms to do it. It could be done by telephone, and, in fact, the telephone helpdesk would not only deal with enquiries but could actually be used for the application process itself. It is being used successfully in that way at the moment in the England model as well."[22]

Safbwynt y Pwyllgor

22. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn lledamcanion cyffredinol cam cynnar (neu'n gostau bras) yn hytrach nag yn amcangyfrifon cost manwl, gan nad yw'r gofynion wedi'u diffinio'n glir. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gwaith ymgysylltu â CThEM a'r gwaith a wneir gan awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar wrth ddatblygu'r costau ac mae'n croesawu ymrwymiad y Gweinidog i adolygu a diweddaru costau'n rheolaidd yn sgîl rhagor o ddatblygiadau. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu monitro ac

[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraffau 26 ac 31

[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 138

[21] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 138

[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 35

adolygu dull gweithredu'r ddeddfwriaeth gan fod ei heffaith ariannol yn dal i gael ei chadarnhau.

4. Yr opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru

23. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.[23]

24. Yn ôl yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, byddai'r opsiwn a ffefrir yn cynnwys Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cael ceisiadau dwyieithog drwy borthol ar-lein y Gwasanaeth Gofal Plant a ddefnyddir ar gyfer yr hyn sy'n cyfateb i'r cynnig gofal plant yn Lloegr (a weinyddir gan yr Adran Addysg) a'r cynllun cenedlaethol, Gofal Plant Di-dreth (TFC).[24]

25. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn esbonio y byddai:

- rhieni yn gwneud cais am y cynllun drwy borth y llywodraeth drwy broses ymgeisio a reolir gan CThEM.
- meini prawf cymhwystra yn cael eu gwirio mewn amser real yn erbyn nifer o ffynonellau data eraill y llywodraeth, megis data PAYE, cofrestriadau o enedigaethau a data budd-daliadau i gadarnhau cymhwystra'r rhieni a'r plentyn.
- pob teulu sy'n cymryd rhan yn ail-gadarnhau ei gymhwystra drwy borthol CThEM bob tymor, gyda gwiriad arall yn erbyn y setiau data perthnasol sy'n cael ei gynnal i gadarnhau ei statws (i bob rhiant, nid dim ond sampl o 20 y cant o ymgeiswyr fel yn Opsiwn 1);
- prosesau presennol CThEM yn cael eu defnyddio i ymdrin â'r broses apelio, fel y'u defnyddiwyd ar gyfer y cynnig cyfatebol yn Lloegr a'r cynllun Gofal Plant Di-dreth.[25]

26. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, er bod CThEM yn cynnig gwasanaeth dwyieithog ar hyn o bryd ar gyfer ei wasanaethau cenedlaethol eraill, y byddai angen iddo:

- ddarparu'r gwasanaeth ar ran Llywodraeth Cymru yn unol â Safonau'r Gymraeg ac, yn benodol, yr hysbysiad cydymffurfio a roddwyd i Weinidogion Cymru;

[23] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 7.2

[24] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 7.11

[25] Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 7.12 – 7.13, 7.17 a 7.20

- darparu llinell gymorth ffôn a chymorth technegol ddwyieithog i helpu'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar-lein a darparu dull i'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol wneud cais.[26]

27. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai gwasanaeth CThEM yn cydymffurfio'n llwyr â rhwymedigaethau statudol y Gymraeg.[27] Pan ofynnwyd a fyddai staff CThEM yng Nghymru yn cynnal y gwasanaeth hwn, dywedodd swyddog y Gweinidog nad yw wedi'i drafod yn fanwl ond ei fod yn "un o'r opsiynau rydym ni'n mynd i edrych arno".[28]

28. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif mai cost weinyddol yr opsiwn hwn rhwng 2019/20 a 2024/25 fyddai £9,118,000, gyda chost cydymffurfio i rieni a gwarcheidwaid sy'n ymwneud â'r amser i gyflwyno cais a dogfennaeth ategol o £1,408,000.[29]

29. O ran ymgysylltu â CThEM wrth ddatblygu costau ar gyfer yr opsiwn a ffefrir, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

> "As we've developed these options, we've had very early engagement with HMRC to see whether or not they were able to deliver this offer for us, should the Bill proceed, and also whether they could deliver it in a Welsh context, because there are some variations within the Welsh context—I'm talking about the issues around language and so on, and so forth. Now, we're going to continue with that engagement of HMRC on the costings as the plans become clearer. Gartner Consulting, by the way, as well, has also had detailed engagement with HMRC to refine their own cost model, which is inputted into the RIA. So, based on work undertaken by HMRC, it reflects an indicative breakdown of costs that HMRC supplied. So, it's the very best information we could possibly have in these costings."[30]

30. O ran addasu llwyfan gofal plant di-dreth presennol CThEM, dywedodd y Gweinidog:

> "We are working with HMRC to make sure that it reflects our eligibility criteria; that supporting information that accompanies this through HMRC is very clear, very easy to follow; that parents in Wales who apply

[26] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 7.18-7.19

[27] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 106

[28] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 109

[29] Memorandwm Esboniadol, tudalennau 21-22

[30] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 51

> will receive the same level of service as they do in England; and that it'll be fully compliant with Welsh language standards."[31]

31. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai Gweinidogion Cymru yn ymrwymo i drefniant asiantaeth gyda CThEM o dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn sail iddi.[32] Esboniodd hefyd, er mai'r model a ffefrir yw CThEM gyda mewnbwn Cymreig, os credir bod angen model Cymreig pwrpasol drwy Awdurdod Cyllid Cymru neu fodel pwrpasol newydd arall, mae potensial yn y Bil.[33]

32. Holodd y Pwyllgor pam yr amcangyfrifir bod y gost i ymgeiswyr yn Opsiwn 3 (Llywodraeth Cymru) ac Opsiwn 4 (parti wedi'i gontractio) yn dyblu cost yr opsiwn a ffefrir. Esboniodd swyddog y Gweinidog mai'r rheswm dros hyn yw bod angen i ymgeiswyr roi llai o wybodaeth ategol ar gyfer y gwiriadau cymhwystra yn yr opsiwn a ffefrir oherwydd bod gan CThEM fynediad at gofnodion y llywodraeth ganolog.[34] Yn yr un modd, mae'r gost is i ymgeiswyr yn Opsiwn 1 (awdurdodau lleol) yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod gan awdurdodau lleol eisoes fynediad at wybodaeth oherwydd bod ganddynt fwy o gofnodion ar bobl sy'n byw yn eu hardal.[35]

33. Gan ymateb i bryderon ynghylch costau cyngor llinell gymorth CThEM, o ystyried yr heriau posibl y gall ymgeiswyr eu hwynebu wrth geisio cael y cymorth hwnnw, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

> "...based on what we know is happening and based on the Gartner analysis as well, we are confident that the costings are right and that the level of provision is, but, as I say, we'll also be monitoring this and probably the Welsh Revenue Authority will take an interest in the performance of this as well. If we identify that there's as a problem, HMRC are working as an agent for us. Now, initially, they did have some issues, but it wasn't to do with the provision of the childcare offer in England; it was actually to do with the tax credit issue, primarily. They've resolved those—the glitches that were with that. With this, the system has been working quite well."[36]

---

[31] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 57

[32] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 57

[33] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 55

[34] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 72

[35] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 74

[36] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 102

34. Yn ôl yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

> "It is good practice to add a risk premium, in the early stages of an appraisal such as this, this risk premium may be encompassed by a general uplift to a project's net present value, to offset and adjust for undue optimism."[37]

35. Yn unol â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM,[38] mae Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso ymgodiad ar lefel uchaf y duedd optimistiaeth o 200 y cant i'r costau pontio yn Opsiwn 1 (awdurdodau lleol) ac Opsiwn 3 (Llywodraeth Cymru), i gyfrif am lefel gymharol yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r opsiynau hyn.[39] Mae hyn yn cymharu ag ymgodiad o 41 y cant ar gyfer gosod contractau allanol yn Opsiwn 2 a ffefrir (CThEM) ac Opsiwn 4 (parti wedi'i gontractio).[40]

36. Pan holwyd ar y posibilrwydd y byddai costau CThEM yn amrywio, fel yn achos trethi datganoledig, cyfeiriodd y Gweinidog at ymgodiad y duedd optimistiaeth a gymhwyswyd i bob opsiwn gan nodi bod rhywfaint o sicrwydd nad yw'r costau'n mynd i fynd y tu hwnt i'r amcangyfrifon lefel uchel hyn.[41]

37. Ar gyfer pob opsiwn, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod "y costau rhedeg blynyddol yn cynyddu'n gyson bob blwyddyn oherwydd costau integreiddio". Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:[42]

> "It seems sometimes counterintuitive, but the longer a system is in place, the greater the likelihood is that there's going to be a desire for further integration, as the years go by. And, with that further integration, the costs increase. So, whilst it seems counterintuitive, that propensity, typically, based on experience of previous schemes, is that as a system is in place, as each year goes by, there is more of a demand for more integration along things that you're doing, and the costs rise with it. It becomes more complex. So, that's why it applies to all options."[43]

38. Ar 9 Gorffennaf 2018, ysgrifennodd y Gweinidog at y Llywydd i gadarnhau bod Llywodraeth Cymru bellach wedi sicrhau pob cydsyniad angenrheidiol gan

---

[37] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.29

[38] Trysorlys EM, Y Llyfr Gwyrdd: Canllawiau Llywodraeth Ganolog ar Arfarnu a Gwerthuso, 2018, Tabl 7, Canrannau Addasu Tuedd Optimistiaeth Cyffredinol

[39] Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 8.30 ac 8.56

[40] Y Memorandwm Esboniadol, tudalennau 87 a 100

[41] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 64

[42] Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 8.31, 8.45 ac 8.72

[43] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2018, paragraff 120

Lywodraeth y DU o ran y Bil. Roedd y llythyr yn cynnwys gohebiaeth gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, lle mae'n dweud:

> "The present agreement to integrate the Welsh offer into the service is based on the current plans from WG [Welsh Government]. I must make clear that any changes to the operation of the 30 hours childcare scheme or eligibility criteria would generate further costs and will affect the timelines for delivery. These changes would also necessitate separate agreements and would need to be covered by a new MoU.
>
> WG will be responsible for funding all costs associated with the delivery and on-going support for the Welsh 30 hours offer. HMRC have provided high-level estimates of these costs, however, these are subject to change once delivery begins."[44]

Safbwynt y Pwyllgor

39. Mae'r Pwyllgor yn nodi cymhwyso tuedd optimistiaeth safonol y Llyfr Gwyrdd wrth gyfrifo costau pob opsiwn. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn dal i bryderu y gallai'r costau sy'n gysylltiedig â rhoi cymorth a chyngor digonol i ymgeiswyr drwy linell gymorth arfaethedig CThEM godi ac mae'n awgrymu y dylid monitro hyn yn agos. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi'r cafeat gan y Prif Ysgrifennydd y gall costau CThEM newid ac y byddant yn cynyddu os bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am newid dull gweithredu'r cynnig gofal plant neu'r meini prawf cymhwystra.

40. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod sail resymegol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr opsiwn a ffefrir ganddi, gan ddefnyddio arbenigedd CThEM ac addasu system bresennol i ddarparu Cynnig Gofal Plant Cymru. Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'r potensial yn y Bil i ddatblygu gwasanaeth Cymraeg pwrpasol a gaiff ei gefnogi gan Awdurdod Cyllid Cymru yn y dyfodol - model a fyddai'n sicrhau bod gan Weinidogion Cymru reolaeth dros ddarparu gwasanaethau a chreu a chadw swyddi yng Nghymru.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am gostau CThEM i ddatblygu a darparu Cynnig Gofal Plant Cymru yn ei lwyfan presennol wrth i'r cynnig fynd rhagddo.

[44] Llythyr gan y Gwir Anrh. Elizabeth Truss AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid – 14 Mawrth 2018

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i thrafodaethau â CThEM, i'w gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth Cymraeg weithredu yng Nghymru, gan sicrhau swyddi yng Nghymru a chefnogi safonau'r Gymraeg.

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i gynnwys Awdurdod Cyllid Cymru o ran cynghori a goruchwylio, gan feithrin arbenigedd a phrofiad yng nghyd-destun Cymru, rhag ofn y bydd angen datblygu system bwrpasol i Gymru yn y dyfodol.